

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: clerc.llansantffraed@btinternet.com
Tel: 01545 570323

COFNODION HEB EU CADARNHAU

UNCONFIRMED MINUTES

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, 1af o Fedi 2015 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.

Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 1st September 2015 at the Reading Room, Llanon.

Yn bresennol:

Cadeirydd: Cyng G Lewis
Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed a B Tomlins.
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards.
Mr Denfer Morgan (Clerc).

Present:

Chairman: Cllr G Lewis
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed and B Tomlins.
County Councillor Dafydd Edwards.
Mr Denfer Morgan (Clerk).

1. Ymddiheuriadau / Materion Personol / Datgelu Buddianau Personol.

Ymddiheurodd y Cyng. M James am fethu a bod yn bresennol.

1. Apologies / Personal Matters / Disclosure of Personal Interests.

Cllr. M James apologised for his inability to attend the meeting.

Esboniodd y Cadeirydd, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Clerc, ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Awst gan nad oedd yna ddigon o faterion i'w trafod.

The Chairman explained that, following consultation with the Clerk, a meeting had not been convened in August as there were insufficient items for discussion.

2. Cofnodion o'r Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2015.

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2015 fel rhai cywir.

2. Minutes of the Meetings held on 7 July 2015.

The Minutes of the Meeting of the Council held on 7 July 2015 were confirmed as being a correct record.

3. Materion yn codi o'r Cofnodion.

3. Matters arising from the Minutes.

3.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg

Cytunwyd gwneud ymholiadau anffurfiol gyda'r perchennog tir perthnasol ac i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

3.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg

It was agreed to make informal enquiries with the landowner concerned and to consider the matter further at the next meeting.

3.2 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae

Cytunwyd gofyn i'r Cynghorydd Dafydd Edwards wneud ymholiadau pellach gyda chyflenwr er mwyn trefnu cyflenwad o 'scalpings' a'u gosod ar y llwybr.

3.2 Track leading to the Playing Field

It was agreed to ask Councillor Dafydd Edwards to make further enquiries with a supplier in order to proceed to order a supply of 'scalpings' and their placing on

the track.

3.3 Chalet ym Morfa Esgob

Rhodddwyd ystyriaeth pellach i'r cais a dderbyniwyd i'r Cyngor gael eglurhâd o'r caniatâd cynllunio fyddai angen i adleoli'r chalet yn bellach o'r môr. Nodwyd bod y Cynghorydd Harry Hayfield, yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyngor, wedi trafod mathau gwahanol o gyllido gyda'r unigolyn dan sylw ac wedi ei wahodd i gyfarfod heno. Dywedodd y Cynghorydd Morgan ei fod wedi disgwyl y byddai llythyr wedi'i anfon at yr unigolyn yn olrhain penderfyniad y Cyngor. Esboniodd y Clerc nad oedd penderfyniad o'r math wedi'i wneud gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD ysgrifennu at yr unigolyn dan sylw gan amlinellu'r cyngor a dderbyniwyd parthed y caniatâd cynllunio fyddai angen i adleoli'r chalet ac yn dweud y byddai'n bwrw 'mlaen yn unig petai cyllid yn cael ei sicrhau.

3.4 Banciau Ailgylchu Gwydr

Adroddodd y Clerc yr ateb a dderbyniwyd oddi wrth y Cyngor Sir parthed yr angen i sicrhau fod y banciau gwydr yn cael eu gwagio yn wythnosol yn unol a'r cytundeb a'r posibilrwydd o drydyd banc. **PENDERFYNWYD** nodi'r ateb a chytuno cwrdd gyda swyddog o'r Cyngor Sir parthed lleoli banc gwydr yn Llansantffraed.

4. Eiddo

(a) Adroddiad yr Arolygiad

Adroddwyd bod angen côt o baent ar y twnel yn arwain at y sleid yn y maes chwarae gan ei fod yn rhydu. Adroddodd y Clerc fod Wicksteed wedi dweud y byddent yn cynnal eu harchwiliad blynyddol ym mis Medi a **PHENDERFYNWYD** tynnu eu sylw at y mater penodol hyn cyn yr archwiliad.

3.3 Chalet at Morfa Esgob

Further consideration was given to the request received for the Council to seek clarification as to the planning permission that would be required to relocate the chalet to a site further inland. It was noted that, in accordance with the Council's previous decision, Councillor Harry Hayfield had discussed possible sources of funding with the individual involved and had invited him to attend tonight's meeting. Councillor Dennis Morgan stated that he would have expected a letter to have been sent to the individual outlining the Council's decision. The Clerk explained that no such decision had been made by the Council.

It was **RESOLVED** to write to the individual involved outlining the advice received concerning the planning permission required to relocate the chalet and indicating that it would only proceed if funding was secured.

3.4 Glass Recycling Banks

The Clerk reported the reply received from the County Council concerning the need to ensure that the glass banks were emptied on a weekly basis in accordance with the agreement and the possibility of a third bank.

It was **RESOLVED** to note the reply and to agree to meet with the Officer of the County Council with regard to locating a glass bank at Llansantffraed.

4. Property

(a) Inspection Report

It was reported that the tunnel leading to the slide at the playground was rusting and needed a coat of paint. The Clerk reported that Wicksteed had indicated that they would be undertaking their annual inspection in September and it was **RESOLVED** to draw their attention to this specific matter prior to the inspection.

(b) Diweddariad ar y Gwaith Contract

Adeiladu sied storio
Ebosiodd y Cynghorydd Tomlins yr hyn a wnaeth i drefnu cyfarfod gyda'r contractwr, yr asiant a rhai Cynghorwyr yn dilyn yr alwad ffôn a gafodd gan Westen Power yn dweud y gallai'r gwaith fynd yn ei flaen. Nodwyd y dylai'r gwaith ddechrau cyn bo hir.

Ailorchuddio'r cyrtiau tenis.

Dywedodd y Clerc ei fod wedi cynghori'r contractwr y gallai'r gwaith gychwyn nawr gan fod y gwyliau ysgol ar ben ac roeddyn aros am ateb.

5. Cyllid

PENDERFYNWYD nodi:-

- i) nad oedd hysbysiad wedi'i dderbyn eto oddi wrth yr archwilwyr allanol, BDO LLP, parthed cwblhau Cyfrifon Blynnyddol 2014-15 ac i ofyn i'r Clerc cael eglurhâd o'r sefyllfa;
- ii) bod ad-daliad TAW o £876.27 wedi'i hawlio a'i dderbyn;
- iii) derbyn cyfraniad o £10 oddi wrth Graham a Margaret Ball o Clarovine tuag at y gost o bwrcasu baner Draig Goch newydd. Cytunwyd codi'r faner wrth gefn a oedd yng ngofal y Cynghorydd Lodwick Lloyd gan ddefnyddio'r £10 ar gyfer prynu baner arall.

6. Gohebiaeth ac Ymgynghoriadau

- (a)** A150388 - Hafodwnog Uchaf, Nebo, Llanon.
Newid model y tyrbein o T2 i E4660 (85kW) ar dwr 36.6m o uchder, rotor gyda diamedr 23.5m, yr uchder cyfan i flaen y llafn 48.4m
PENDERFYNWYD cadarnhau anfon sylwadau yn dweud nad oedd gwrthwynebiad.

(c) Up-date on the Contract Work

Construction of a storage shed
Councillor Tomlins explained the action he had taken in arranging a meeting with the contractor, agent and a few Councillors following the phone call he had received from Western Power indicating that the work could commence. It was noted that the work should now commence shortly.

Resurfacing of the tennis courts

The Clerk stated that the contractor had been advised that the work could commence now that the school holidays were over and a reply was awaited.

5. Finance

It was RESOLVED:-

- i) to note that no notice had been received to date from the external auditors, BDO LLP, in respect of the completion of the Annual Accounts for 2014-15 and to request the Clerk to seek clarification on the matter;
- ii) to note that a VAT refund of £876.27 had been claimed and received;
- iii) to note receipt of a contribution of £10 from Graham and Margaret Ball of Clarovine towards the cost of purchasing of a new Red Dragon flag. It was agreed that the reserve flag held by Councillor Lodwick Lloyd now be raised and the £10 be utilised for the purchase of a further flag.

6. Correspondence and Consultation Matters

- (a)** A150388 - Hafodwnog Uchaf, Nebo, Llanon.
Change of turbine model for T2 to an E4660 (85kW) on a 36.6m hub height tower, 23.5m diameter rotor, total height to blade tip 48.4m
It was **RESOLVED** to confirm sending comments sent stating that there were no objections.

- | | |
|--|---|
| <p>(b) Cais Cynllunio A150498 Hafan yr Efail Sheltered Housing, Heol Hafan-yr-Efail, Llanon. Installation of Biomass Heating Energy Container serving the heat and hot water needs.</p> <p>Dim gwrthwynebiad.</p> | <p>(b) Planning Application A150498 Hafan yr Efail Sheltered Housing, Heol Hafan-yr-Efail, Llanon. Installation of Biomass Heating Energy Container serving the heat and hot water needs.</p> <p>No objection</p> |
| <p>(c) Cais Cynllunio A150594 Tir yn ffinio â Carregwen, Nebo. Byngalo dormer 3 ystafell wely ar wahan.</p> <p>Y mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais oherwydd ei fod yn credu fod y datblygiadau a gymeradwywyd eisoes yn yr ardal yn uwch na'r nifer tai a ddyranwyd i'r anheddiad yn y CDLI ac nid yw'r ymgeisydd wedi dangos angen digonol am anheddle yn y lleoliad hwn.</p> | <p>(c) Planning Application A150594 Land adjacent to Carregwen, Nebo. New 3 bedroom detached dormer bungalow</p> <p>The Council objects to the application as it believes that development already permitted in the area exceeds the allocation of dwellings for the settlement provided in the LDP and that the applicant has not demonstrated a sufficient need for a dwelling at this location.</p> |
| <p>(d) Cais Cynllunio A150556 Lluest Hen, Nebo, Llanon. Installation of a single 47m tip height wind turbine and associated infrastructure.</p> <p>Yn gwrthwynebu gan ei fod yn credu y byddai tyrbein arall yn y lleoliad yma yn cynrychioli gor-ddatblygu, yn creu gormodedd ac y byddai'n cael effeith gwael ar y tirlun a chymdogion.</p> | <p>(d) Planning Application A150556 Lluest Hen, Nebo, Llanon. Installation of a single 47m tip height wind turbine and associated infrastructure.</p> <p>Objection as it believes that a further turbine in this location represents over-development, amounts to proliferation and would have an adverse effect on the landscape and neighbouring residents.</p> |
| <p>(e) Dogfen Ymgynghori Heneddio'n Dda yng Ngheredigion.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi ei gynnwys.</p> | <p>(e) Ageing Well in Ceredigion Consultation Document</p> <p>It was RESOLVED to note its contents.</p> |
| <p>(f) Ymgynghoriad gan Cyngor Sir Ceredigion: Her y Gyllideb</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r ymgynghoriad ac i annog yr Aelodau i gymryd rhan ynddo fe.</p> | <p>(f) Ceredigion County Council Consultation: Budget Challenge</p> <p>It was RESOLVED to note the consultation which was underway and to encourage Members to take part in it.</p> |
| <p>(g) Cais i gefnogi camau i ymestyn y cyfyngiad cyflyndra 30 mya ar yr A487 ar ochr ddeheuol y pentref.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais a PENDERFYNWYD ei gefnogi.</p> | <p>(g) A request to support representations to extend the 30 mph speed limit on the A487 at the southern side of the village.</p> <p>Consideration was given to the request and it was RESOLVED to support it.</p> |
| <p>(h) Ystyried cais i osod mainc ar lan y mor yn</p> | <p>(h) To consider a request to place a bench on</p> |

Llanon'

PENDERFYNWYD cytuno gyda chais Mr Colin Davies i osod mainc er cof am ei dad mewn safle priodol ar dir y Cyngor ar lan y môr.

- (i) Cyfarfod Blynnyddol a Chynhadledd Un Llais Cymru
PENDERFYNWYD awdurdodi'r Cynghorwyr L Lloyd a B Tomlins i fynd i'r uchod ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid ar 3ydd Hydref.

7. Unrhyw Fater Arall

- 7.1 Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at gwyn a gafodd nad oedd y bin sbwriel wrth y grisiau wedi'i wagio.
- 7.2 Cyfeiriodd y Cynghorydd Hayfield at daith 'Walking With The Wounded' a fyddai yn cyrraedd yr ardal ar ddydd Mercher 23ain Medi.
- 7.3 Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan at gwyn a dderbyniodd am gar yn cael ei barcio ar yr stryd fawr yng nghyffiniau siop y pentref.
- 7.4 PENDERFYNWYD cynnig prynu'r meinciau a byrddau a ddisgrifiwyd yn y cyfarfod ac i'w gosod ar y safle ym meddiant y Cyngor ger y siop sglodion fel seddau cyhoeddus ac i ganiatau i'r siop eu defnyddio yn rhad ac am ddim ar yr amod eu bod yn cadw'r safle'n lân ac yn daclus.
- 7.5 Cyfeiriodd y Cynghorydd Reed at yr angen i ofyn i berchennog stâd Graig Ddu docio'r coed oedd yn tyfu dros y palmant.
- 7.6 Cytunwyd ynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf materion yn ymwneud â chynnal a chadw'r toiledau.
8. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 6 Hydref 2015**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 y.h.

the 'seafront at Llanon'.

It was **RESOLVED** to agree with the request of Mr Colin Davies to place a bench in memory of his father at a suitable location on Council land on the seafront.

- (i) One Voice Wales Annual Meeting and Conference
It was **RESOLVED** to authorise Councillors L Lloyd and B Tomlins and to attend the above at Bont Pavilion, Pontrhydfendigaid on 3rd October.

7. Any Other Business

- 7.1 Councillor Hughes referred to a complaint he had received that the rubbish bin near the steps had not been emptied.
- 7.2 Councillor Hayfield referred to the 'Walking With The Wounded' walk which would be in the area on Wednesday 23rd September.
- 7.3 Councillor Morgan referred to a complaint he had received about a car being parked on the main street in the vicinity of the village shop.
- 7.4 It was **RESOLVED** to offer to purchase the seating and tables identified to the meeting for placing at the area owned by the Council near the chip shop as public seating and to agree that they could be used by the shop for free subject to them keeping the area clean and tidy.
- 7.5 Councillor Reed referred to the need to ask the owner of Graig Ddu estate to trim the trees which were overhanging the pavement.
- 7.6 It was agreed to include on next meeting's agenda matters concerning the maintenance of the toilets.

8. Date of Next Meeting – 6 October 2015

The meeting concluded at 9.35 p.m.